



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

# Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

## **Atodlen 8: Personau neilltuedig sy'n darparu gwasanaethau bysiau i'r cyhoedd**

# Cynnwys

---

|   |                                                                                                        |          |
|---|--------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------|
| 1 | Cefndir a chyd-destun                                                                                  | 1        |
| 2 | Ymchwiliad safonau mewn perthynas â phersonau neilltuedig sy'n darparu gwasanaethau bysiau i'r cyhoedd | 2        |
| 3 | Rhesymoldeb a chymesuredd                                                                              | 4        |
| 4 | Tystiolaeth a dderbyniwyd gan y personau perthnasol                                                    | 7        |
| 5 | Tystiolaeth a dderbyniwyd gan aelodau o'r cyhoedd                                                      | 28       |
| 6 | Tystiolaeth a dderbyniwyd gan Banel Cyngori Comisiynydd y Gymraeg                                      | 36       |
| 7 | Casgliadau'r ymchwiliad safonau<br>Cadw Cofnodion                                                      | 37<br>39 |
| 8 | Y Camau Nesaf                                                                                          | 42       |
|   | Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr i'r ymchwiliad safonau                                                | 43       |

# 1 Cefndir a chyd-destun

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ('y Mesur'), yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw at y ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Bydd dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd:

- ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Hyd yn hyn, mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cynnal ymchwiliadau safonau mewn perthynas â 209 o sefydliadau. Mae'r Mesur yn cyfeirio at 'bersonau sy'n agored i orfod cydymffurfio â safonau'. Mae 'person' yn y cyd-destun hwn yn golygu sefydliadau a sectorau sy'n dod o fewn categori o bersonau a bennir yn Atodlenni 5 a 6, neu Atodlenni 7 ac 8.

Mae'r ymchwiliad hwn i'r sector bysiau a threnau yn ychwanegol i'r nifer hynny. Dyma'r ail ymchwiliad i sectorau a enwir yn Atodlen 8, y Mesur. Eisoed mae ymchwiliad wedi ei gynnal i bersonau neilltuedig sy'n darparu swyddfeydd post i'r cyhoedd ac ymgwymerwyr dŵr a charthffosiaeth. Mae'r Comisiynydd hefyd yn y broses o gynnal ymchwiliad i'r sectorau nwy a thrydan.

Mae'r Comisiynydd wedi defnyddio'r gweithgareddau a restrir yn Atodlen 9 Mesur y Gymraeg fel sail i'r ymchwiliad hwn.

## 2 Ymchwiliad safonau mewn perthynas â phersonau neilltuedig sy'n darparu gwasanaethau bysiau i'r cyhoedd

Yn unol ag adran 62 y Mesur, cyflwynwyd hysbysiad rhagymchwilio ar 7 Mawrth 2016 at sylw personau yr ymddengys i'r Comisiynydd eu bod yn aelodau o'r grŵp canlynol o bersonau:

- Atodlen 8: Personau neilltuedig sy'n darparu gwasanaethau bysiau i'r cyhoedd

Hysbysiad ysgrifenedig yw hysbysiad rhagymchwilio, sy'n datgan bwriad Comisiynydd y Gymraeg i gynnal ymchwiliad safonau, ac sy'n pennu pwnc yr ymchwiliad safonau. Ni chaiff y Comisiynydd gynnal ymchwiliad safonau oni bai iddi roi hysbysiad rhagymchwilio i bob person perthnasol (sefydliad) o leiaf 14 diwrnod cyn dechrau ar yr ymchwiliad.

Pwnc yr ymchwiliad safonau hwn oedd dyfarnu:

- pa safonau (os o gwbl) a ddylai fod yn benodol gymwys i bersonau (p'un a yw'r safonau eisoes wedi eu pennu gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(1) ai peidio)

Noda memorandwm esboniadol y Mesur '[bod] dyletswyddau y gellir eu gosod ar y personau hynny a restrir yn Atodlen 8 yn y Mesur arfaethedig, ac sydd o fewn Atodlen 7, yn gyfyngedig i ddyletswyddau sy'n dod o fewn dau fath o safon, sef cyflenwi gwasanaethau a chadw cofnodion'.<sup>1</sup>

Roedd yr ymchwiliad, felly, yn casglu tystiolaeth ar y gweithgareddau a restrir fel safonau cyflenwi gwasanaeth a chadw cofnodion yn Atodlen 9 Mesur y Gymraeg.

Dyma ail ymchwiliad y Comisiynydd i bersonau o fewn Atodlen 7 ac 8 y Mesur. Cynhaliwyd ymchwiliad i bersonau neilltuedig sy'n darparu swyddfeydd post i'r cyhoedd ac ymgwymerwyr dŵr a charthffosiaeth rhwng 26 Mai ac 16 Awst 2015.

Cyn hynny, cynhaliodd y Comisiynydd ymchwiliadau safonau i 209 o gyrff a enwir yn y Mesur ac erbyn hyn mae 26 o gyrff yn gweithredu safonau mewn perthynas â'r Gymraeg.

Cychwynnodd cyfnod yr ymchwiliad safonau hwn ar 31 Mawrth. Daeth i ben ar 30 Mehefin 2016.

Yn rhan o'r ymchwiliad safonau hwn, casglwyd gwybodaeth gan gwmnïau bysiau sy'n weithredol yng Nghymru. Gwnaethpwyd hynny trwy dderbyn holiadur wedi ei

---

<sup>1</sup> Memorandwm esboniadol Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru)

## **Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Darparwyr Gwasanaethau Bysiau i'r Cyhoedd**

gwblhau ganddynt. Casglwyd tystiolaeth hefyd gan Banel Cyngori Comisiynydd y Gymraeg a'r cyhoedd.

Cynhaliwyd dau sesiwn briffio ar bwrpas a chylch gorchwyl yr ymchwiliad ar gyfer y cwmnïau bysiau a threnau. Un ar 12 Ebrill 2016 yng Nghanolfan Fusnes Conwy a'r llall ar 15 Ebrill 2016 yn Neuadd y Ddinas yng Nghaerdydd.

## 3 Rhesymoldeb a chymesuredd

Yn unol ag adran 63(1) y Mesur, rhaid i'r Comisiynydd roi sylw i'r angen am sicrhau nad yw gofynion am i bersonau gydymffurfio â safonau yn rhinwedd adran 25(1) yn afresymol neu'n anghymesur. Ystyriwyd rhesymoldeb a chymesuredd wrth greu'r adroddiad safonau hwn a bydd yr ystyriaeth hon yn parhau trwy gydol y camau sydd i ddilyn.

### Cam 1: Ymchwiliad safonau

Cyflwyno adroddiad safonau yn seiliedig ar ymgynghoriad gyda'r sector yw cwblhad cam cyntaf y broses.

Wrth gynnal ymchwiliad safonau, rhaid i'r Comisiynydd:

- a) ystyried, o ran pob gweithgaredd a bennir yn Atodlen 9 y mae person yn ei wneud, a yw'n rhesymol ac yn gymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys ai peidio, ac
- b) o ran pob gweithgaredd o'r fath, os yw'n rhesymol ac yn gymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i berson, ddod i'r casgliad y dylai safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i'r person mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw.

### Cam 2: Cyflwyno rheoliadau

Mae'r Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod rheoliadau yn darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau sy'n ymwneud â phob un o'r gweithgareddau yn Atodlen 9 a wneir gan y person (ac i'r graddau y mae'n eu gwneud) yn benodol gymwys i'r person hwnnw.

Ond nid oes rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau yn benodol gymwys i berson mewn perthynas â gweithgaredd a bennir yn Atodlen 9 os yw, neu i'r graddau y mae:

- a) adroddiad safonau o dan adran 64 yn nodi y byddai'n afresymol neu'n anghymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i berson mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw, neu bod
- b) Gweinidogion Cymru o'r farn y byddai'n afresymol neu'n anghymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i berson mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw.

Nid yw hynny'n atal rheoliadau rhag darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau eraill yn benodol gymwys i berson.

## Cam 3: Pleidlais ar y rheoliadau drafft ar lawr y Senedd

Bydd dadl a phleidlais ar gymeradwyo'r rheoliadau drafft yng nghyfarfod llawn y Cynulliad Cenedlaethol. Bydd pleidlais i gymeradwyo'r rheoliadau yn gwneud y safonau'n benodol gymwys i'r sefydliad neu'r sector, ac yn galluogi'r Comisiynydd i roi hysbysiad cydymffurfio iddynt.

## Cam 4: Hysbysiadau cydymffurfio drafft a therfynol

Drwy wneud rheoliadau o dan y Mesur hwn yn arferadwy drwy offeryn statudol, awdurdodir Comisiynydd y Gymraeg i roi hysbysiad cydymffurfio i berson.

Hysbysiad cydymffurfio yw hysbysiad a roddir i berson gan y Comisiynydd:

- a) sy'n nodi, neu'n cyfeirio at, un neu ragor o safonau a bennir gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(1), a
- b) sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson gydymffurfio â'r safon neu â'r safonau a nodir neu y cyfeirir ati neu atynt.

Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd wrth ddod i benderfyniad ar gynnwys hysbysiad cydymffurfio a roddir i berson.

Nid yw'r ffaith bod safon yn benodol gymwys i berson yn golygu bod dyletswydd arno i gydymffurfio â'r safon honno. Dim ond os bydd y Comisiynydd yn rhoi hysbysiad cydymffurfio i'r person, a bod yr hysbysiad hwnnw'n ei gwneud hi'n ofynnol i gydymffurfio â safon ar ddiwrnod gosod, y bydd y ddyletswydd honno mewn grym.

Bydd y Comisiynydd yn ymgynghori gyda pherson ar gynnwys hysbysiad cydymffurfio drafft. Dyma gyfle i ystyried rhesymoldeb a chymesuredd unrhyw ofynion penodol o fewn yr hysbysiad a bydd modd i'r sefydliad gyflwyno tystiolaeth bellach yn hynny o beth.

Yn seiliedig ar yr ymgynghoriad hwnnw, bydd Comisiynydd y Gymraeg yn cyflwyno hysbysiad cydymffurfio terfynol i berson. Nid yw methiant y person i gymryd rhan mewn ymgynghoriad yn atal y Comisiynydd rhag rhoi hysbysiad cydymffurfio iddynt.

Wedi i Gomisiynydd y Gymraeg roi hysbysiad cydymffurfio i berson, caiff y person hwnnw wneud cais i'r Comisiynydd yn gofyn iddi ddyfarnu a yw'r gofyniad i gydymffurfio â'r safon honno, neu i gydymffurfio â'r safon yn y modd hwnnw, yn afresymol neu'n anghymesur ai peidio. Pe bai'r Comisiynydd yn hysbysu person nad yw'r gofyniad i gydymffurfio â safon yn afresymol neu'n anghymesur, rhoddir hawl yn y Mesur iddo apelio i'r Tribiwnlys er mwyn dod i ddyfarniad.

## Meini prawf Comisiynydd y Gymraeg

Wrth ddod i farn ar bwnc yr ymchwiliad safonau hwn, yn unol â'r gofynion a amlinellir yn Rhan 4, Pennod 8 y Mesur, ystyriwyd y meini prawf canlynol ochr yn ochr â'r dystiolaeth a dderbyniwyd yn rhan o'r ymchwiliad safonau. Nid oes rhaid ystyried pob maen prawf ymhob achos, ac nid oes un o'r meini prawf yn bwysicach na'i gilydd.

- A yw'r person perthnasol yn agored i orfod cydymffurfio â safonau – a yw'r person perthnasol yn dod o fewn Atodlen 7 a hefyd o fewn Atodlen 8?
- A yw'r dosbarth o safon (cyflenwi gwasanaethau; cadw cofnodion) yn gymwysadwy i'r person perthnasol?
- A yw'r person perthnasol yn gwneud y gweithgaredd dan sylw?
- A yw'r person perthnasol eisoes wedi ymrwymo i ddarparu'r gweithgaredd, neu'r weithred dan sylw, yn rhannol neu'n llawn, drwy ei gynllun neu bolisi iaith Gymraeg?
- A yw'r person perthnasol eisoes yn darparu'r gwasanaeth yn Gymraeg (boed hynny'n cyfateb i'r union ofynion sydd ynghlwm wrth safon ai peidio), neu'n gwneud y gweithgaredd yn unol â'r safon?
- A yw mwyafrif helaeth y personau perthnasol eraill o fewn yr un sector yn darparu'r gwasanaeth yn Gymraeg, neu'n gwneud y gweithgaredd?
- A oes unrhyw resymau eraill yn erbyn, neu o blaid gwneud y safon yn benodol gymwys i'r person perthnasol?



## 4 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan y personau perthnasol

### Ymchwiliad sector bysiau

Hyd yn hyn, mae'r mwyafrif o'r ymchwiliadau safonau wedi eu cynnal i sefydliadau sydd wedi eu henwi yn atodlenni Mesur y Gymraeg. Nid oes sefydliadau unigol wedi eu henwi o fewn y sector bysiau. Yn hytrach enwir 'personau sy'n darparu gwasanaethau bysiau i'r cyhoedd' yn Atodlen 8 y Mesur a felly cynhelir yr ymchwiliad hwn i'r sector yn ei gyfanrwydd.

O ganlyniad, nid yw'r adroddiad hwn yn enwi cwmnïau yn unigol a gwneir pob ymdrech i sicrhau nad oes modd adnabod y cwmnïau o'r ymatebion a geir. Derbyniwyd tystiolaeth gan 42 cwmni sy'n ddarparwyr gwasanaethau bysiau. Roedd y dystiolaeth hyn yn cynnwys ymatebion i 26 o gwestiynau mewn holiadur, yn ogystal a thystiolaeth bellach a ddarparwyd yn dilyn ymholiadau pellach.

Er mwyn mapio'r sector fe wnaethom ymgynghori gyda Comisiynydd Traffig Cymru Nick Jones, swyddogion y CPT (Confederation of Passenger Transport) yng Nghymru, Traveline Cymru a Bus Users Cymru. Gofynnwyd hefyd am eu cefnogaeth wrth geisio ymgysylltu gyda'r sector. Roedd Comisiynydd Traffig Cymru yn bresennol yn ein sesiwn wybodaeth yng Nghaerdydd ac roedd swyddogion y CPT yn bresennol yn y ddau sesiwn wybodaeth. Fe wnaethom baratoi erthygl oedd yn hysbysu darparwyr bysiau o'r ymchwiliad ac yn eu hannog i ymateb i'r ymchwiliad ar gyfer aelodau'r CPT. Gan sylweddoli nad ydyw pob darparwr bysiau yn aelodau o'r CPT fe wnaeth y Comisiynydd Traffig lythyru'r holl ddarparwyr bysiau cofrestredig yng Nghymru yn eu hannog i gymryd rhan yn yr ymchwiliad.

Cafwyd rhestr o'r holl ddarparwyr bysiau "Bus Registrations Wales" trwy wefan data.gov.uk. Mae'r rhestr yn gofnod o'r holl wasanaethau bysiau cofrestredig yng Nghymru fel y nodir ar yr Operator Licensing Business System (OLBS). Roedd y rhestr hwn yn cynnwys 125 o gwmnïoedd ac fe wnaethom gysylltu gyda'r holl gwmnïoedd hyn yn unigol i'w hysbysu ein bod yn cynnal ymchwiliad safonau i ddarparwyr bysiau a'u gwahodd i gymryd rhan yn yr ymchwiliad trwy gwblhau holiadur. O ganlyniad, rydym wedi derbyn ymateb gan 42 darparwr bysiau o'r 125 a lythyrwyd, sy'n 33.6% o'r darparwyr bysiau cofrestredig yng Nghymru.

Yn absenoldeb unrhyw safonau drafft neu safonau sydd wedi eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru sy'n berthnasol i'r sector dan sylw nid oedd yr holiadur yn gofyn i sefydliadau fynegi eu gallu i weithredu yn unol ag unrhyw safonau penodol. Felly seiliwyd yr holiadur ar weithgareddau Atodlen 9 y Mesur, sef 'gweithgareddau y mae'n rhaid pennu safonau cyflenwi gwasanaeth mewn perthynas â hwy'. Mae'r rhestr hwn yn cynnwys 16 gweithgaredd megis gohebiaeth; ffurflenni; cyhoeddiadau; a gwefannau. Wrth baratoi'r adroddiad fe wnaethom ymdrechu i gynnig esboniad o'r holl wasanaethau hyn a chynnig enghreifftiau. Ymdrechwyd hefyd i ystyried y math o weithgareddau penodol mae darparwyr bysiau yn eu gwneud ym mhob categori.

Rhoddir crynodeb o'r dystiolaeth a dderbyniwyd gan yr ymatebwyr yn adran 4 yr adroddiad hwn. Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch natur a strwythur y cwmnïau dan sylw, y gweithgareddau a wneir ganddynt, a'r gweithgareddau hynny a gynigir trwy'r Gymraeg ar hyn o'r bryd.

"Ystyr 'gwasanaethau bysiau' yw gwasanaethau rheolaidd â cherbyd gwasanaethau cyhoeddus (o fewn ystyr adran 1 o Ddeddf Cerbydau Cyhoeddus i Deithwyr 1981) i gludo teithwyr am brisiau tocyn ar wahân, ac eithrio gwasanaeth-

- a) y mae capasiti cyfan y cerbyd ar gyfer y gwasanaeth hwnnw wedi ei brynu gan siartwyr at ei ddefnydd ei hun neu i'w ailwerthu;
- b) sy'n daith neu drip a drefnwyd yn breifat gan unrhyw berson sy'n gweithio'n annibynnol ar weithredwr y cerbyd; neu
- c) lle y mae'r teithwyr yn teithio gyda'i gilydd ar daith, gyda seibiannau neu hebddynt, a ph'un ai ar yr un diwrnod ai peidio, o un neu fwy o leoedd i un neu fwy o leoedd ac yn ôl."

Mae'r uchod felly'n eithrio rhai gwasanaethau bysiau, er enghraifft, teithiau pleser.

Dyma grynodeb o ymatebion y cwmnïau i'r holiadur fesul adran.


## Adran 1: Gwybodaeth Cyffredinol

Derbyniwyd 42 ymateb gan gwmnïau bws unigol.

### Ym mha siroedd mae'r cwmnïau yn cynnal teithiau?

Ar sail yr ymatebion a dderbyniwyd, mae'r tabl isod yn dangos y nifer o wasanaethau bysiau a weithredir ar sail contract wedi ei thendro a'r nifer o wasanaethau a weithredir ar sail masnachol yn ôl bob sir yng Nghymru.


Mae cyfanswm o 76 gwasanaeth bws a weithredir ar sail contract wedi ei thendro. Gweithredir 60 gwasanaeth bws ar sail masnachol. Yn amlwg mae rhai cwmnïau yn cynnal mwy nag un gwasanaeth bws.




Holwyd cyfres o gwestiynau cyffredinol am weithlu'r cwmnïoedd, ac am y mathau o wasanaethau a ddarperir ganddynt.

### Nifer o staff sy'n gweithio i'r cwmni


Nodir yma'r nifer sy'n gyfwerth ag amser llawn.



O'r staff hynny, sawl aelod sydd â sgiliau Cymraeg?




Nifer y bysiau sy'n cynnal gwasanaethau cyhoeddus (fel y cyfeirir atynt  
yn y Mesur)



## Niferoedd teithwyr blynyddol

Rhoddwyd opsiynau amrediad i'r cwestiwn hwn.



## Faint o gwmnïau sydd wedi is contractio gwasanaethau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?

Adroddodd 32 o 42 cwmni nad ydynt yn is contractio unrhyw wasanaethau. O'r wyth a nododd eu bod nhw'n is contractio gwasanaethau, roedd sawl un yn cyfeirio at wasanaethau hysbysebu a ddarparwyd ar eu rhan gan gwmnïau allanol.

## Y nifer o gwmnïau sy'n dyfarnu grantiau i drydydd parti

Nid oedd yr un o'r 42 cwmni a ymatebodd i'r holiadur yn dyfarnu grantiau i drydydd parti.

## Adran 2: Gwasanaethau cyfrwng Cymraeg

Faint o gwmnïau sy'n gweithredu unrhyw fath o bolisi neu gynllun iaith Gymraeg ar hyn o bryd?

Mae 10 allan o'r 42 cwmni yn gweithredu polisi neu gynllun iaith Gymraeg ar hyn o bryd.

Faint o gwmnïau sy'n cynnig hyfforddiant ieithyddol i'r staff?

Ni adroddodd unrhyw gwmni bod hyfforddiant ieithyddol ar gael i'r staff.

### Gweithgaredd 1: Gohebiaeth a anfonir gan gorff

Fe wnaethom rannu'r cwestiwn ar ohebiaeth yn dair adran sef:

- anfon gohebiaeth yn uniongyrchol at unigolyn
- ymateb i ohebiaeth Cymraeg rydych wedi ei dderbyn
- anfon gohebiaeth at nifer o bobl yr un pryd.

Dyma'r ymatebion a gafwyd:


|                                                         | Dwyieithog<br>neu<br>Gymraeg<br>yn unig | Saesneg<br>gyda pheth<br>Cymraeg | Saesneg<br>yn unig | Ddim yn<br>berthnasol |
|---------------------------------------------------------|-----------------------------------------|----------------------------------|--------------------|-----------------------|
| Anfon gohebiaeth yn<br>uniongyrchol at unigolyn         | 4                                       | 8                                | 24                 | 2                     |
| Ymateb i ohebiaeth<br>Gymraeg rydych wedi ei<br>dderbyn | 15                                      | 1                                | 11                 | 12                    |
| Anfon gohebiaeth at nifer<br>o bobl yr un pryd          | 4                                       | 2                                | 17                 | 16                    |

Nodir i 12 cwmni honni nad ydw'r cwestiwn am ymateb i ohebiaeth Cymraeg a dderbyniwyd yn berthnasol, nododd tri o'r cwmnïoedd nad ydynt wedi derbyn gohebiaeth Cymraeg. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu nad ydynt yn gallu ymateb yn Gymraeg i ohebiaeth Cymraeg fel noda'r dyfyniad isod:

'Never received any [Welsh language correspondence] but could be responded to in Welsh. We have one Welsh speaker in our organisation.'

Mae pedwar cwmni yn anfon gohebiaeth yn uniongyrchol at unigolyn yn ddwyieithog neu'n Gymraeg yn unig, mae 15 cwmni yn nodi iddynt ymateb yn ddwyieithog neu Gymraeg yn unig i ohebiaeth Cymraeg maent wedi ei dderbyn.

Noda pedwar cwmni iddynt anfon gohebiaeth at nifer o bobl yr un pryd yn ddwyieithog neu'n Gymraeg yn unig.



## Gweithgaredd 2.4: Galwadau ffôn, llinellau cymorth a chanolfannau galwadau


Rhannwyd yr adran ar alwadau ffôn, llinellau cymorth a chanolfannau galwadau yn bedair adran sef:

- ateb galwadau ffôn cyffredinol
- llinell ffôn archebu tocynnau
- neges peiriant ateb
- gwneud galwadau ffôn

Dyma grynodeb o'r atebion:

|                                | Dwyieithog neu Gymraeg yn unig | Saesneg gyda pheth Cymraeg | Saesneg yn unig | Ddim yn berthnasol |
|--------------------------------|--------------------------------|----------------------------|-----------------|--------------------|
| Ateb galwadau ffôn cyffredinol | 14                             | 5                          | 18              | 0                  |
| Llinell ffôn archebu tocynnau  | 0                              | 0                          | 15              | 13                 |
| Neges peiriant ateb            | 6                              | 5                          | 23              | 3                  |
| Gwneud galwadau ffôn           | 15                             | 4                          | 19              | 0                  |

Gweler o'r tabl uchod bod cyfanswm o 19 cwmni eisoes yn ateb y ffôn gan ddefnyddio peth Cymraeg neu Gymraeg yn unig. Nid oedd llinell ffôn archebu tocynnau yn berthnasol i 13 cwmni. Roedd cyfanswm o 19 o gwmnïau yn gwneud galwadau ffôn yn ddwyieithog, yn Gymraeg yn unig neu Saesneg gyda pheth Cymraeg. Roedd 19 o gwmnïau yn gwneud galwadau ffôn yn Saesneg yn unig. Nododd un ymatebydd mai'r ymatebydd yn unig a oedd yn gwneud a derbyn galwadau ffôn. Awgryma hyn nad yw staff o reidrydd yn rhannu'r cyfrifoldeb o ateb a gwneud galwadau a bod iaith yr alwad yn ddibynnol ar iaith yr unigolyn sydd yn dal y swydd honno.



### Gweithgaredd 2.5: Cyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus

Rhannwyd yr adran ar gyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus yn dair rhan sef:


- cynnal cyfarfodydd gydag un neu fwy o aelodau'r cyhoedd
- cynnal digwyddiadau sy'n agored i'r cyhoedd
- arddangosfeydd

Dyma grynodedd o'r atebion:



|                                                         | Dwyieithog neu Gymraeg yn unig | Saesneg gyda pheth Cymraeg | Saesneg yn unig | Ddim yn berthnasol |
|---------------------------------------------------------|--------------------------------|----------------------------|-----------------|--------------------|
| Cynnal cyfarfodydd gydag un neu fwy o aelodau'r cyhoedd | 7                              | 6                          | 15              | 10                 |
| Cynnal digwyddiadau sy'n agored i'r cyhoedd             | 4                              | 2                          | 10              | 20                 |
| Arddangosfeydd                                          | 5                              | 2                          | 11              | 18                 |

Nid oedd cynnal digwyddiadau yn weithgaredd perthnasol i nifer o'r cwmnïau, yn arbennig cynnal digwyddiadau i'r cyhoedd ac arddangosfeydd. O'r cwmnïau nododd eu bod yn cynnal cyfarfodydd gydag un aelod o'r cyhoedd neu fwy, nododd 13 eu bod yn medru darparu rhyw fath o wasanaeth Cymraeg ond roedd 15 yn nodi mai yn Saesneg yn unig oeddent yn darparu'r gwasanaeth.



## Gweithgaredd 2.6: Cyhoeddusrwydd, hysbysebu a dangos deunydd yn gyhoeddus

Rhannwyd yr adran ar gyhoeddusrwydd, hysbysebu a dangos deunydd yn gyhoeddus i naw adran sef:

- amserlenni taith
- tocynnau
- cardiau / pasys taith
- posterï
- datganiadau i'r wasg


## Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Darparwyr Gwasanaethau Bysiau i'r Cyhoedd

- gwybodaeth iechyd a diogelwch
- rheolau teithio/ amodau cludiant
- hysbysiad o newidiadau i lwybrau neu amserlen
- cyhoeddiadau eraill

Dyma grynodeb o'r atebion:

|                                               | Dwyieithog neu Gymraeg yn unig | Saesneg gyda pheth Gymraeg | Saesneg yn unig | Ddim yn berthnasol |
|-----------------------------------------------|--------------------------------|----------------------------|-----------------|--------------------|
| Amserlenni taith                              | 17                             | 2                          | 15              | 4                  |
| Tocynnau                                      | 2                              | 1                          | 22              | 10                 |
| Cardiau / pasys taith                         | 5                              | 1                          | 16              | 9                  |
| Posterï                                       | 12                             | 3                          | 16              | 5                  |
| Datganiadau i'r wasg                          | 7                              | 0                          | 15              | 10                 |
| Gwybodaeth iechyd a diogelwch                 | 5                              | 3                          | 25              | 6                  |
| Rheolau teithio/ amodau cludiant              | 7                              | 1                          | 22              | 6                  |
| Hysbysiad o newidiadau i lwybrau neu amserlen | 12                             | 2                          | 14              | 9                  |
| Cyhoeddiadau eraill                           | 5                              | 4                          | 12              | 10                 |

Yr oedd y mwyafrif o'r cwmnïau yn cyhoeddi, hysbysebu ac arddangos deunydd yn gyhoeddus yn Saesneg yn unig gan amlaf. Er hynny roedd nifer o'r gwasanaethau'n cael eu harddangos, cyhoeddi neu eu hysbysebu yn ddwyieithog neu Gymraeg yn unig ac yn Saesneg gyda pheth Gymraeg. Gwelwyd yn arbennig gyda gwasanaethau megis amserlenni taith, posterï a hysbysiadau o newid i lwybrau neu amserlen nad oedd y nifer a oedd yn arddangos y gwasanaethau hyn yn ddwyieithog neu Gymraeg yn unig yn llawer llai na'r nifer o'r cwmnïau hynny a oedd yn eu harddangos yn Saesneg yn unig. Roedd 50% o'r cwmnïau a oedd yn darparu amserlenni teithio yn eu cyhoeddi yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.



## Gweithgaredd 2.7: Llunio a chyhoeddi ffurflenni

Rhannwyd yr adran ar lunio a chyhoeddi ffurflenni yn dair adran sef:


- ffurflen gwyno
- ffurflen eiddo coll
- ffurflen gofrestru

Dyma grynodedb o'r atebion:

|                     | Dwyieithog neu Gymraeg yn unig | Saesneg gyda pheth Gymraeg | Saesneg yn unig | Ddim yn berthnasol |
|---------------------|--------------------------------|----------------------------|-----------------|--------------------|
| Ffurflen gwyno      | 5                              | 3                          | 20              | 12                 |
| Ffurflen eiddo coll | 4                              | 2                          | 18              | 14                 |
| Ffurflen gofrestru  | 1                              | 2                          | 13              | 20                 |

Roedd y mwyafrif o'r cwmnïau yn llunio a chyhoeddi ffurflenni yn uniaith Saesneg. Lluniwyd ffurflen gwyno uniaith Saesneg gan 20 cwmni. Nododd 12 o gwmnïau bod y ffurflenni hynny yn amherthnasol iddynt. Nododd un ymatebydd mai at ddibenion swyddfa yn unig mae'r ffurflenni eiddo coll ac nad ydynt ar gael i'r cyhoedd:

Er bod mwyafrif helaeth y cwmnïau yn nodi eu bod yn darparu ffurflenni, roedd dros hanner yr ymatebwyr yn nodi nad oedd ffurflenni cofrestru yn berthnasol iddynt.



### Gweithgaredd 2.8: Gwefan, ar-lein a pheiriannau hunan wasanaeth

Ar gyfer y weithgaredd hon rhannwyd y cwestiwn i bedair rhan:


- gwefan
- cyfryngau cymdeithasol e.e. Facebook neu Twitter
- peiriant hunan wasanaeth e.e. prynu tocynnau
- ap e.e. ar y ffôn

|                            | Dwyieithog neu Gymraeg yn unig | Saesneg gyda pheth Cymraeg | Saesneg yn unig | Ddim yn berthnasol |
|----------------------------|--------------------------------|----------------------------|-----------------|--------------------|
| Gwefan                     | 3                              | 5                          | 20              | 7                  |
| Cyfryngau cymdeithasol     | 3                              | 2                          | 22              | 9                  |
| Peiriannau hunan wasanaeth | 0                              | 0                          | 9               | 28                 |
| Ap                         | 0                              | 0                          | 8               | 28                 |

Nododd un cwmni eu bod yn defnyddio gwasanaeth Traveline Cymru er mwyn darparu gwybodaeth am amserlenni a chynllunio taith yn ddwyieithog i'w cwsmeriaid, gan nodi bod eu gwefan nhw yn Saesneg yn unig:

‘...we direct our customers to Traveline Cymru who can advise required timetable and fare information in English or Welsh.’

Yn Saesneg yn unig caiff y gwasanaethau hyn eu darparu gan fwyafrif helaeth y cwmnïau ar hyn o bryd. Er hynny, mae gan dri darparwr wefan dwyieithog neu Gymraeg yn unig ac mae tri darparwr hefyd yn defnyddio'r Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae 28 darparwr wedi nodi nad ydyw peiriannau hunan wasanaeth yn berthnasol ond mae naw wedi nodi iddynt wneud defnydd ohonynt sydd yn awgrymu ei fod yn dechnoleg perthnasol. Mae'r un peth yn wir am apiau, er i 28 darparwr nodi nad oes ganddynt ap mae wyth o'r darparwyr yn gwneud defnydd o'r dechnoleg ar gyfer eu gwasanaethau.




### Gweithgaredd 2.9: Gosod amserlenni mewn gorsafoedd a safleoedd bysiau

Gofynnwyd i ymatebwyr nodi pwy oedd yn gyfrifol am osod amserlenni taith ar safleoedd ac mewn gorsafoedd bysiau. Roedd hwn yn gwestiwn aml-ddewis a gofynnwyd iddynt nodi'r atebion perthnasol o'r rhestr canlynol:

- eich cwmni
- awdurdod lleol
- cwmni bysiau arall
- arall. Nodwch

|                                        |                       |
|----------------------------------------|-----------------------|
| Eich cwmni                             | 5                     |
| Awdurdod lleol                         | 27                    |
| Awdurdod lleol a'r cwmni               | 2                     |
| Awdurdod lleol, y cwmni a chwmni arall | 1                     |
| Arall                                  | 1 (heb nodi manylion) |
| Dim ymateb                             | 7                     |

Yr awdurdod lleol sydd bennaf gyfrifol am osod amserlenni ar gyfer mwyafrif y cwmnïau. Gellir gweld o'r ymatebion uchod bod gan yr awdurdod lleol rôl mewn gosod amserlenni mewn 30 o achosion ac mae'r siart isod yn dangos hynny. Ymddengys bod gan yr awdurdod lleol rôl ganolog yn y gweithgaredd hwn a gallai hyn olygu nad yw'r ddyletswydd yn syrthio o fewn cylch gwaith y cwmnïau eu hunain bob tro.



## Gweithgaredd 2.10: Arwyddion

Rhannwyd yr adran ar arwyddion i ddwy ran, sef:

- arwyddion
- sgrin

Dyma grynodeb o'r atebion:

|           | Dwyieithog neu Gymraeg yn unig | Saesneg gyda pheth Cymraeg | Saesneg yn unig | Ddim yn berthnasol |
|-----------|--------------------------------|----------------------------|-----------------|--------------------|
| Arwyddion | 10                             | 5                          | 6               | 16                 |
| Sgrin     | 11                             | 2                          | 11              | 12                 |

Yr hyn a olygir gyda 'sgrin' yn yr achos hwn yw ddyfais neu sgrin electronig i arddangos gwybodaeth fel safle nesaf neu amserlen. Yr oedd 15 o gwmnïau yn arddangos arwyddion yn Gymraeg neu'n ddwyieithog; neu yn Saesneg gyda pheth Cymraeg. Nododd 11 o gwmnïau mai Saesneg yn unig yw iaith eu sgriniau, ond nododd 13 o gwmnïau bod eu sgriniau'n ddwyieithog, Cymraeg yn unig, neu'n Saesneg gyda pheth Gymraeg.



## Gweithgaredd 2.11: Systemau annerch cyhoeddus

Ar gyfer y gweithgaredd hwn gofynnwyd i ymatebwyr nodi eu harfer ieithyddol mewn dau faes penodol:

- cyhoeddiadau sain mewn gorsaf neu safle bws
- cyhoeddiadau sain ar y bws e.e. safle nesaf

|                                        | Dwyieithog neu Gymraeg yn unig | Saesneg gyda pheth Cymraeg | Saesneg yn unig | Ddim yn berthnasol |
|----------------------------------------|--------------------------------|----------------------------|-----------------|--------------------|
| Cyhoeddiadau mewn gorsaf neu safle bws | 2                              | 0                          | 3               | 31                 |
| Cyhoeddiadau ar y bws                  | 4                              | 0                          | 4               | 28                 |


Nododd y mwyafrif o gwmnïau nad oedd y gweithgareddau yma'n berthnasol iddynt. I'r rhai oedd yn darparu'r gwasanaethau yma, roedd dau yn gallu cynnig cyhoeddiadau yn yr orsaf neu safle bws yn Gymraeg, a pedwar yn gallu gwneud cyhoeddiadau ar y bws yn Gymraeg. O'r rheiny, nododd un y canlynol:

'[On one service] Welsh Government provide the Welsh language input for the bus audio visual system.'

Awgryma hyn fod mewnbwn gan Lywodraeth Cymru yn ffactor yn narpariaeth dwyieithog o leiaf un cwmni. O ganlyniad, o bosib y byddai'r ddarpariaeth Gymraeg ar gael ar un llwybr sydd wedi tendro, ond nid ar lwybrau eraill a ddarperir gan y cwmni hynny.

Eglurodd un ymatebwr a oedd yn darparu'r gwasanaeth yn Saesneg yn unig ar hyn o bryd:

'We have some vehicles fitted with next stop verbal announcements. Our concern...is that if we were to give next stop info in English and Welsh the distance between city bus stops would mean that may not be beneficial.'






## Gweithgaredd 2.12: Derbyn ymwelwyr

|                        | Dwyieithog neu Gymraeg yn unig | Saesneg gyda pheth Cymraeg | Saesneg yn unig | Ddim yn berthnasol |
|------------------------|--------------------------------|----------------------------|-----------------|--------------------|
| Derbyn ymwelwyr        | 11                             | 3                          | 16              | 7                  |
| Desgiau gwybodaeth     | 7                              | 0                          | 12              | 17                 |
| Safle gwerthu tocynnau | 4                              | 0                          | 11              | 22                 |

Roedd 30 o'r cwmnïau yn nodi eu bod yn derbyn ymwelwyr ac mae 16 yn nodi eu bod yn gwneud hynny'n Saesneg yn unig ar hyn o'r bryd sydd yn golygu bod bron i hanner yr ymatebwyr yn cyfarch ymwelwyr gyda rhywfaint o Gymraeg. Mae dros hanner yr ymatebwyr sef 22 yn nodi nad ydynt yn defnyddio safle gwerthu tocynnau ac 17 yn nodi nad oes ganddynt ddesgiau gwybodaeth.




## Gweithgaredd 2.13: Cyrsiau sy'n agored i'r cyhoedd

Holwyd y cwmnïau am gyrsiau hyfforddiant oeddent yn eu darparu a fyddai yn agored i'r cyhoedd.

Dyma grynodeb o'r atebion:

|         | Dwyieithog neu Gymraeg yn unig | Saesneg gyda pheth Gymraeg | Saesneg yn unig | Ddim yn berthnasol |
|---------|--------------------------------|----------------------------|-----------------|--------------------|
| Cyrsiau | 3                              | 3                          | 9               | 26                 |

Roedd 26 cwmni o'r farn nad oeddent yn gwneud y weithgaredd dan sylw. Er hynny, roedd yn weithgaredd perthnasol i nifer fechan o gwmnïau. Nododd tri cwmni mai yn ddwyieithog neu Gymraeg yn unig y byddai cyrsiau yn cael eu cynnal, tra nododd naw cwmni ar y llaw arall mai yn uniaith Saesneg y byddent cynnal cyrsiau.




## Gweithgaredd 2.14: Brand ac hunaniaeth gorfforaethol

Gofynnwyd i'r cwmnïau nodi eu harfer ieithyddol pan mae'n dod i frand a hunaniaeth eu cwmni.

Dyma grynodeb o'r atebion:

|                      | Dwyieithog neu Gymraeg yn unig | Saesneg gyda pheth Cymraeg | Saesneg yn unig | Ddim yn berthnasol |
|----------------------|--------------------------------|----------------------------|-----------------|--------------------|
| Brand ac enw'r cwmni | 6                              | 8                          | 24              | 2                  |

Roedd 24 allan o'r 40 a ymatebodd y cwestiwn hwn yn credu mai uniaith Saesneg yw brand a hunaniaeth corfforaethol eu cwmnïau. Creda dau ymatebydd nad oedd yn berthnasol. Roedd 14 o gwmnïau yn nodi bod brand a hunaniaeth gorfforaethol eu cwmnïau yn ddwyieithog neu'n uniaith Gymraeg yn unig, neu'n Saesneg gyda pheth Cymraeg.



## Gweithgaredd 2.15: Gwasanaethau eraill

Rhoddwyd y cyfle i'r ymatebwyr egluro a oes unrhyw wasanaethau eraill a ddarperir ganddynt ac i ba raddau maent yn eu gwneud yn Gymraeg.

Dyma grynodedb o'r atebion:

|                     | Ydyn | Nac ydyn | Heb ymateb |
|---------------------|------|----------|------------|
| Gwasanaethau eraill | 10   | 21       | 11         |



Derbyniwyd esboniad o'r gwasanaethau ychwanegol hynny gan saith o'r deg cwmni fel a ganlyn:


## Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Darparwyr Gwasanaethau Bysiau i'r Cyhoedd

- llogi cerbydau yn breifat
- cludo disgyblion ysgol neu choleg
- adran cynnal a chadw bysiau
- adran hyfforddi
- gweithredu gwasanaeth bws o fath gwahanol

### Gweithgaredd 2.16: ydych chi'n cynnig y gwasanaethau hynny'n Gymraeg?

|                                 | Ydyn | Nac ydyn | Heb ymateb |
|---------------------------------|------|----------|------------|
| Gwasanaethau ar gael yn Gymraeg | 5    | 18       | 19         |

Nododd hanner y cwmnïau oedd yn darparu gwasanaethau ychwanegol eu bod ar gael yn Gymraeg. Ni ofynnwyd am fanylion ynghylch pa wasanaethau yn union oedd ar gael yn Gymraeg.



### Gweithgaredd 3: Cadw Cofnodion


Gofynnwyd i'r cwmnïau i ba raddau maent yn cadw cofnodion am y materion canlynol:

- unrhyw gwynion a dderbyniwyd gennych
- sgiliau iaith y gweithlu
- y sgiliau sydd angen ar gyfer swyddi penodol wrth recriwtio
- ceisiadau am wasanaeth cyfrwng Gymraeg

Dyma grynodeb o'r atebion:

|                                                             | Cadw Cofnodion |
|-------------------------------------------------------------|----------------|
| Unrhyw gwynion a dderbyniwyd gennych                        | 20             |
| Sgiliau iaith                                               | 4              |
| Y sgiliau sydd angen ar gyfer swyddi penodol wrth recriwtio | 4              |
| Ceisiadau am wasanaeth cyfrwng Cymraeg                      | 1              |

Gwelir bod mwyafrif helaeth o'r cwmnïau a ymatebodd, 20 i gyd, yn cadw cofnodion o unrhyw gwynion a dderbynnir. Nifer fechan sy'n cadw gwybodaeth am sgiliau iaith Cymraeg a dim ond un cwmni sy'n cadw cofnodion ceisiadau am wasanaeth cyfrwng Cymraeg. Dim ond pedwar o gwmnïau hefyd sydd yn cadw cofnodion o'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer swyddi penodol wrth recriwtio.



## 5 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan aelodau o'r cyhoedd

Derbyniwyd cyfanswm o 264 o ymatebion gan aelodau'r cyhoedd i'r ymchwiliadau safonau a gynhaliwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â'r personau a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn. Derbyniwyd 65 o ymatebion i'r ymchwiliad gan unigolion a ddewisodd gwblhau holiadur a ddarparwyd ar eu cyfer gan Gomisiynydd y Gymraeg ar y wefan.

Derbyniwyd 199 ymateb pellach yn seiliedig ar dempled o ymateb safonol a gyhoeddodd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg; yn yr achos hwn roedd yr holl ymatebion yr un fath.

Ceir rhestr lawn o'r ymatebwyr a oedd yn fodlon i'w hymatebion gael eu cyhoeddi yn Atodiad A.

Mae'r tabl isod yn dangos o ble daeth yr ymatebwyr yn ôl eu lleoliad daearyddol.

### Nifer yr ymatebion i'r ymchwiliad safonau yn ôl lleoliad<sup>2</sup>

| Lleoliad                 | Nifer | Canran (%) |
|--------------------------|-------|------------|
| Abertawe                 | 6     | 2.3        |
| Blaenau Gwent            | 3     | 1.1        |
| Bro Morgannwg            | 6     | 2.3        |
| Caerffili                | 4     | 1.5        |
| Casnewydd                | 3     | 1.1        |
| Castell-nedd Port Talbot | 6     | 2.3        |
| Ceredigion               | 22    | 8.3        |
| Conwy                    | 11    | 4.2        |
| Caerdydd                 | 33    | 12.5       |
| Gwynedd                  | 84    | 31.8       |
| Merthyr Tudful           | 5     | 1.9        |
| Pen-y-bont ar Ogwr       | 1     | 0.4        |

<sup>2</sup> Mae'r ystadegau hyn yn cynnwys yr holl ymatebion a ddaeth drwy'r holiadur, ynghyd â thempled Cymdeithas yr Iaith Gymraeg.

| <b>Lleoliad</b>   | <b>Nifer</b> | <b>Canran (%)</b> |
|-------------------|--------------|-------------------|
| Powys             | 8            | 3.0               |
| Rhondda Cynon Taf | 7            | 2.7               |
| Sir Benfro        | 4            | 1.5               |
| Sir Ddinbych      | 5            | 1.9               |
| Sir Fynwy         | 2            | 0.8               |
| Sir Gaerfyrddin   | 16           | 6.1               |
| Sir y Fflint      | 2            | 0.8               |
| Torfaen           | 1            | 0.4               |
| Wreccsam          | 3            | 1.1               |
| Ynys Môn          | 18           | 6.8               |
| Tu allan i Gymru  | 11           | 4.2               |
| Heb ateb          | 3            | 1.1               |
| Cyfanswm          | 264          | 100%              |


## Safonau cyflenwi gwasanaethau

Wrth holi barn y cyhoedd ar resymoldeb a chymesuredd y gofynion sydd ynghlwm â'r safonau cyflenwi gwasanaethau, gofynnwyd iddynt ymateb i'r cwestiwn isod yn yr holiadur:

‘A ydych yn cytuno neu’n anghytuno y dylai’r gwasanaethau a ddaw o dan y categorïau uchod gael eu cynnig yn Gymraeg gan y cwmnïau isod?’

Wrth ateb y cwestiwn hwn, rhoddwyd cyfle i'r cyhoedd ymateb fesul gweithgaredd sydd o fewn cwrpas safonau cyflenwi gwasanaethau.

Mae'r tabl isod yn dangos amrywiaeth yr ymatebion a gafwyd:




## Safonau cadw cofnodion

Wrth geisio barn y cyhoedd ar resymoldeb y gofynion sydd ynghlwm â'r safonau cadw cofnodion, gofynnwyd iddynt ymateb i'r cwestiwn isod yn yr holiadur:

'A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r gwasanaethau a ddaw o dan y categorïau uchod gael eu cynnig yn Gymraeg gan y cwmnïau isod?'

O'r 66 ymateb a gafwyd drwy'r holiadur ar wefan Comisiynydd y Gymraeg, roedd 97% wedi ateb y cwestiwn hwn. O'r 64 ymatebodd, roedd 87% (56) yn cytuno y dylai'r ddyletswydd hon gael ei gosod ar y personau perthnasol dan sylw.

Dengys y tabl isod sut yr ymatebodd aelodau'r cyhoedd i'r cwestiwn hwn:





## Sylwadau Pellach

Yn ogystal â darparu ymatebion i gwestiynau penodol ar bwnc yr ymchwiliad safonau, rhoddwyd cyfle i'r cyhoedd nodi unrhyw safonau ychwanegol yr oeddynt o'r farn y dylid eu pennu a'u gwneud yn benodol gymwys i'r personau perthnasol dan sylw, ynghyd ag unrhyw sylwadau pellach a oedd yn berthnasol i'r ymchwiliad safonau hwn.

O'r 66 ymatebodd drwy'r holiadur ar wefan y Comisiynydd, darparodd 27% (18) ohonynt sylwadau ychwanegol i'w hystyried gan Gomisiynydd y Gymraeg yn rhan o'r ymchwiliad safonau.

Dengys y tabl isod sut yr ymatebodd aelodau'r cyhoedd i'r cwestiwn hwn:

Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd yn gyffredinol gefnogol i'r cysyniad o bennu safonau, a hynny er mwyn sicrhau hawliau clir i siaradwyr Cymraeg mewn perthynas â'r gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gwmnïau bysiau.

Mynegwyd gryn awydd gan y cyhoedd i sicrhau bod y safonau a gaiff eu pennu yn rai a fydd yn cael effaith ar fywydau pob dydd pobl gyffredin. Yr hyn y mae'r cyhoedd yn ei weld a'i glywed wrth ddefnyddio gwasanaethau bws oedd yn cael ei ystyried fel y prif flaenoriaeth.

Amlinellir isod brif themâu'r ymatebion a dderbyniwyd a oedd o blaid gwneud y safonau'n benodol gymwys:

- yr angen i sicrhau bod pob cwmni yn darparu gwasanaethau Cymraeg drwyddi draw yn ddiofyn i'w teithwyr ac yn gefnogol o ddewis iaith y teithiwr.
- yr angen i sicrhau bod safonau mewn perthynas â gwasanaeth wyneb i wyneb yn mynd tu hwnt i brif dderbynfeydd a chyfarfodydd.
- sicrhau bod yr holl broses o brynu, derbyn a gwirio tocynnau'n gallu cael ei wneud yn Gymraeg
- yr angen am wasanaethau Cymraeg ar-lein ac am wasanaeth hunanwasanaeth Cymraeg
- sicrhau bod yr hyn a glywir ac a welir, gan y cyhoedd wrth ddefnyddio gwasanaethau bws, i fod yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf a bod hynny i gynnwys meysydd parcio'r gorsafoedd.

Ar y cyfan ni dderbyniwyd gwrthwynebiad i ddyletswyddau iaith gan y cyhoedd. Amlinellir prif themâu'r ymatebion a dderbyniwyd gan y cyhoedd a oedd yn erbyn gwneud safonau'n benodol gymwys isod:

- teimlo'r angen i gyhoeddi'r Saesneg yn gyntaf wrth hysbysu'r cyhoedd o newid sydyn mewn gwasanaethau
- anghytuno â'r gofyniad y dylid cadw cofnodion am y Gymraeg.
- anghytuno gyda chynnal cyfarfodydd a chyrsiau yn ddwyieithog. Eisiau iddynt gael eu cynnal ar wahân; yn Gymraeg a Saesneg yn ôl y galw.

Ar y cyfan yr oedd mwyafrif helaeth o'r ymatebion a dderbyniwyd gan aelodau o'r cyhoedd yn cytuno y dylid sicrhau bod cwmnïau bysiau yn ddarostyngedig i'r safonau cyflenwi gwasanaeth. Cafwyd ymateb ar sail adroddiad gan Grŵp Hawliau Cymdeithas yr Iaith a gan aelodau'r Gymdeithas a ddanfonodd e-bost ar sail templed. Yr oedd yr adroddiad a'r holiaduron a dderbyniwyd gan aelodau'r Gymdeithas yn nodi'n amlwg y dylid gwneud darparwyr bysiau yn ddarostyngedig i bob safon yn y grŵp Safonau Cyflenwi Gwasanaethau.

Yr oedd y rhan helaeth o'r ymatebwyr o'r farn y dylai'r cwmnïau bysiau orfod gohebu â'r cyhoedd yng Nghymru trwy gyfrwng y Gymraeg. Cafwyd canmoliaeth i'r cwmnïau hynny sy'n gohebu yn Gymraeg eisoes ond datganodd nifer eu siom yn erbyn y cwmnïau hynny nad oedd eisoes yn defnyddio'r Gymraeg.

Nododd un ymatebwr ei bod hi'n hawl ieithyddol sylfaenol yng Nghymru i dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg gan gwmnïau trafnidiaeth ac ategodd ymatebwr arall y dylai'r holl ohebiaeth yng Nghymru fod yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Er hynny, roedd un ymatebwr yn flin o feddwl y byddai'n derbyn gohebiaeth yn ddwyieithog ond yn credu eu bod hi'n deg bod gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg gan y cwmnïau yn cael eu hateb yn Gymraeg.

Wrth ystyried safonau mewn perthynas â galwadau ffôn, llinellau cymorth a chanolfannau galwadau yr oedd nifer helaeth o'r ymatebwyr o'r farn y dylai'r gwasanaethau hyn fod ar gael yn Gymraeg. Yr oedd un ymatebwr yn bendant o'r farn y dylai dewis iaith fod ar llinellau cyswllt neu gymorth. Yr oedd yr ymatebwr yn rhagweld y byddai sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn y swyddi i ddelio gyda galwadau ffôn yn broblem, ar hyn o bryd, gan nad oes disgwyl iddynt ddarparu gwasanaeth dwyieithog yn bresennol. Credai y byddai angen hyfforddiant a allai fod yn gostus yn enwedig i gwmni bysiau bach, ond yr oedd o'r farn mai'r cwmnïau bysiau bach sydd â'r siaradwyr Cymraeg gan amlaf.

Honnodd ymatebwr arall y dylid sicrhau bod y cwmnïau mawr o leiaf yn sicrhau bod gwasanaeth ffôn ar gael yn Gymraeg. Ychwanegodd un ymatebwr bod angen sicrhau gwellhad yng ngwasanaethau dwyieithog presennol yn ogystal: 'The standard of those existing services that are bilingual also needs to be improved.' Awgrymodd ymatebwr arall bod angen monitro'r llinellau ffôn dwyieithog i sicrhau eu bod yn gweithio.

Yr oedd un ymatebwr yn cytuno y dylai unigolion Cymraeg eu hiaith fedru sgwrsio'n Gymraeg ar y ffôn, ond y buasai'n anhapus iawn o orfod dewis ym mha iaith y byddai eisiau parhau gyda'i alwadau: 'but I would be unhappy if I had to put up with bilingual greetings, or had 'Press 1 for English, 2 for Welsh' options to negotiate.' Mae sylw gan ymatebydd arall yn cynnig datrysiad i hyn:

'Fe ddylai symud i ffwrdd o canolfannau (sic) galw defnyddio 1 for Welsh 2 for English ond yn hytrach bo'r staff yn ddwyieithog ac felly'n medru ymdrin yn naturiol yn y ddwy iaith. Dyna ddigwyddodd wrth sefydlu Traveline ym Mhenrhyndeudraeth ac o ganlyniad cynyddodd nifer y trafodaethau trwy gyfrwng y Gymraeg dros nos.'

Yr oedd mwyafrif llethol o'r ymatebwyr o'r farn y dylai cyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus gael eu cynnal yn ddwyieithog neu yn Gymraeg yn unig. Nododd un

ymatebwr y dylai cyfarfodydd cyhoeddus gael eu cynnal yn Saesneg yn unig. Yr oedd o'r farn y byddai'r cyfarfodydd cyhoeddus yn llusgo am ddwywaith yr amser fel arall. Ond ar y llaw arall yr oedd yr un ymatebwr yn credu y dylai cyfarfodydd personol gael eu cynnal yn newis iaith yr unigolyn: 'Public meetings should be English only, as they would otherwise drag on for twice the time. Private meetings should be in the language of the person's choice.' Credai unigolyn arall ei bod hi'n haws i unigolyn fynegi eu hun yn well yn ei iaith gyntaf.

Yr oedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr eto o'r farn y dylai cyhoeddusrwydd, hysbysebu a dangos deunydd yn gyhoeddus gael ei wneud yn ddwyieithog neu Gymraeg yn unig. Derbyniwyd cryn feirniadaeth nad oedd hyn yn digwydd eisoes gyda nifer o sylwadau megis 'nid yw hyn yn anodd mewn unrhyw ffordd' a 'dylai fod' yn cryfhau'r teimlad cyffredinol.

Derbyniwyd nifer o bryderon ynghylch tocynnau. Credai'r mwyafrif y dylai tocynnau fod yn ddwyieithog neu Gymraeg yn unig. Yr oedd nifer hefyd o'r farn y dylai'r cyhoedd allu prynu eu tocynnau wyneb yn wyneb yn Gymraeg. Aeth ymatebydd arall ymlaen i nodi, 'I can see big problems if staff, e.g. selling tickets, cannot speak Welsh.' Cais arall a gafwyd gan nifer o'r ymatebwyr oedd i enwau lleoedd gael eu nodi yn Gymraeg ar y tocynnau. Yr oedd un ymatebwr am i enwau lleoedd y tu allan i Gymru gael eu harddangos yn Gymraeg: 'e.e. Caer/ Amwythig'. Nododd fwy nac un ymatebwr eu bod wedi cael eu iselhau a'u trin gyda dirmyg wrth iddynt geisio prun tocyn yn Gymraeg.

Yr oedd un ymatebwr o'r farn y dylai hysbysiadau, amserlenni a phasys gael eu cynhyrchu ar wahân gan y byddai pethau dwyieithog yn 'heavy work to read'. Ond ar y llaw arall yr oedd un ymatebwr o'r farn bod defnyddio'r Gymraeg wrth ymdrin â chyhoeddusrwydd, hysbysebu a dangos deunydd yn gyhoeddus o fudd mawr i bobl ag anghenion dysgu.

Yr oedd nifer o'r farn y dylai ffurflenni gael eu llunio a'u cyhoeddi yn ddwyieithog neu'n uniaith Gymraeg. Nododd un ymatebydd y dylai ffurflenni Cymraeg a Saesneg fod ar gael ar wahân gan bod ffurflenni dwyieithog yn wastraff ar bapur ac yn anodd i'w deall. Yr oedd Cymdeithas yr Iaith yn nodi y dylid sicrhau bod taflenni a llyfrynau gwybodaeth hefyd ar gael yn ddwyieithog ac y dylai fersiynau Cymraeg fod ar gael yn ddiofyn.

Wrth ystyried gwefannau a gwasanaethau ar-lein a ddarperir gan gwmnïau bysiau, roedd cefnogaeth gref i gael y rhain yn ddwyieithog neu Gymraeg yn unig. Cafwyd nifer o sylwadau pellach am brynu tocynnau ar-lein a pheiriannau hunanwasanaeth gan fynnu y dylai'r gwasanaethau hyn fod ar gael yn Gymraeg. Y broblem a nodwyd fwyaf gan yr ymatebwyr oedd nad oedd gwefannau a pheiriannau hunanwasanaeth yn cydnabod enwau Cymraeg lleoedd a gwahanol fathau o docynnau. Nid oes modd prynu tocynnau ar-lein neu gyda pheiriant hunanwasanaeth yn Gymraeg am y tro oherwydd hyn.

Nododd dau ymatebydd bwysigrwydd gwefannau cymdeithasol a defnydd o'r Gymraeg arnynt gan gwmnïau bysiau. Yr oedd un ohonynt o'r farn bod cyfryngau cymdeithasol yn bwysicach, os rhywbeth, na'r wefan gorfforaethol. Yr oedd yr

ymatebydd arall o'r farn y dylai'r cwmnïau sicrhau defnydd o'r Gymraeg pan yn cynnig cyngor a chymorth ar y gwefannau cymdeithasol.

Wrth ystyried y safonau mewn perthynas ag arwyddion, roedd nifer helaeth o'r farn y dylai arwyddion a sgriniau fod yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn gyntaf. Gyda nifer yn nodi bod angen sicrhau cywirdeb enwau lleoedd Cymraeg a defnydd o iaith Gymraeg hygyrch. Noddodd un ymatebwr bod enwau Saesneg ar leoliadau yn gallu bod yn 'ddryslyd'.

Yr oedd un ymatebydd o'r farn y dylid sicrhau bod arwyddion enwau sydd y tu allan i Gymru yn Gymraeg 'e.e. Caer/ Amwythig'. Yr oedd yr un ymatebydd hefyd o'r farn y dylid dangos pen taith y bysiau yn Gymraeg, neu ddwyieithog ar flaen, y tu mewn a thu allan ac ar gefn y bws os yn berthnasol. Ar y llaw arall, yr oedd un ymatebwr o'r farn y dylai'r Saesneg ddod yn gyntaf ar sgriniau ac arwyddion gan mai Saesneg yw iaith y mwyafrif yn y wlad.

Nododd Cymdeithas yr Iaith yn eu hadroddiad y dylai bod pob arwydd yn ddwyieithog gan gynnwys rhai mewn safleoedd bysiau ac ar y bysiau eu hunain. Nodent hefyd y dylai'r safonau ynghylch arwyddion gyfeirio at bob arwydd nid arwyddion newydd yn unig. Ymhelaethwyd y dylai safonau ynghylch arwyddion gynnwys sgriniau electronig ar gerbydau, sgriniau electronig mewn safleoedd bws ac arwyddion a dyluniad arwynebedd cerbydau (tu mewn a thu allan i'r bysiau).

Yr oedd y mwyafrif llethol o'r ymatebwyr o'r farn y dylai systemau annerch cyhoeddus fod yn ddwyieithog neu'n Gymraeg yn unig. Yr oedd nifer fawr o'r ymatebwyr yn pryderu am safon systemau annerch cyhoeddus presennol a'u hynganiadau. Nododd sawl ymatebydd eu siom yn ynganiadau presennol y cwmnïau. Nododd Cymdeithas yr Iaith hefyd bod angen sicrhau bod enwau llefydd yn cael eu hynganu'n gywir yn ogystal â sicrhau bod cyhoeddiadau ar fysiau hefyd yn gorfod bod yn Gymraeg.

Datganodd ymatebwr arall ei syndod o sylweddoli nad oes cyhoeddiadau sain yn cael eu gwneud yn Gymraeg yn yr ardaloedd hynny sydd â chanran uwch o siaradwyr Cymraeg eisoes. Yr oedd ymatebwr arall o'r farn y byddai cyhoeddiadau Cymraeg yn cyfoethogi y profiad o deithio o amgylch y wlad.

Yr oedd un ymatebydd am i gwmnïau bysiau roi stop ar gyfieithu enwau llefydd sydd ag enwau Cymraeg yn unig iddynt ac ymatebwr arall am i gwmnïau beidio cyfieithu'n uniongyrchol a slafaid o'r Saesneg i'r Gymraeg. Nododd ymatebydd arall ei bod hi'n bwysig cael siaradwr rhugl Cymraeg i recordio'r negeseuon ar gyfer y systemau annerch cyhoeddus. Mynegodd ymatebwr arall bod angen i unigolyn cymwys lleol adolygu a diweddarau'r enwau lleol yn rheolaidd i sicrhau bod yr enwau cywir yn cael eu defnyddio. Ar y llaw arall yr oedd un ymatebydd o'r farn y dylai'r cyhoeddiadau gael eu hannerch yn Saesneg yn gyntaf. Aeth yr ymatebwr hwnnw ymlaen i nodi y dylai'r Saesneg gael ei defnyddio os oes newid munud olaf i sicrhau bod y mwyafrif yn deall y camau nesaf yn sydyn.

Yr oedd y mwyafrif o'r farn y dylid derbyn ymwelwyr yn ddwyieithog neu Gymraeg yn unig. Yr oedd un ymatebwr o'r farn y dylid cyfarch ymwelwyr yn Gymraeg yn gyntaf

yn y cadarnleoedd. Aeth ymatebwr arall ati i nodi y dylai gyrrwr bws a swyddog tocynnau ym mhob rhan o Gymru allu cyfarch teithiwr mewn Cymraeg syml.

Yr oedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn credu y dylai cyrsiau gael eu cynnig yn Gymraeg. Ond gwelwyd bod llond llaw o ymatebwyr yn anghytuno a rhai eraill ddim yn mynegi barn y naill ffordd neu'r llall. Aeth un ymatebwr a oedd yn anghytuno cyn belled a dweud y byddai'n cerdded allan o gwrs pe byddai'n cael ei gynnal yn Gymraeg, cyn mynd ymlaen i ddweud na fyddai ots ganddo i gyrsiau Cymraeg gael eu cynnal ar wahân:

'I would walk out of such courses if I found them being presented bilingually. I don't mind having separate Welsh courses.'

Yr oedd nifer helaeth o'r ymatebwyr o'r farn y dylai brand a hunaniaeth cwmnïau bysiau fod yn ddwyieithog neu'n Gymraeg. Tuedda'r ymatebwyr i gredu y dylai hunaniaeth cwmnïau, eu sloganau a'u deunydd marchnata fod yn Gymraeg ac nad oedd wir wahaniaeth os nad yw enw'r cwmni yn Gymraeg. Ar y llaw arall credai dau ymatebwr y dylai enw fod yn Gymraeg wrth i hynny ddatgan eu bod yn Gymreig gydag un ohonynt o'r farn y dylai'r safonau orfodi newid enw brand presennol. Dylai staff Cymraeg hefyd gyflwyno ei hunain yn Gymraeg a gwisgo bathodynau laith Gwaith i amlygu eu gallu i ddarparu gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yr oedd Cymdeithas yr Iaith yn teimlo nad yw'r safonau presennol yn 'mynd i'r afael ar hyn o bryd' a bod angen cryfhau safon gwasanaeth Cymraeg wyneb yn wyneb i'r diben hwn. Yr oeddent hefyd o'r farn bod angen i'r sefydliadau hyn gynllunio eu gweithlu er mwyn gallu cynnig gwasanaethau Cymraeg. Maent yn galw am ad-drefnu'r safonau fel bod safon ynghylch recriwtio yn cael ei gynnwys gyda'r 'Safonau Cyflenwi Gwasanaeth'.

## Safonau cadw cofnodion

Derbyniwyd ychydig o sylwadau a oedd yn cefnogi'r angen i sefydliadau gadw cofnodion, a hynny er mwyn sicrhau monitro cydymffurfiaeth. Ar y llaw arall yr oedd ambell ymatebwr o'r farn bod cadw cofnodion yn fyrddwn ar y cwmnïau ac yn waith diangen iddynt.

## 6 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan Banel Cyngori Comisiynydd y Gymraeg

Derbyniwyd tystiolaeth gan y panel Cyngori yn unol â'r gofynion a amlinellir yn adran 63(3) y Mesur.

Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd gan y Panel yn dangos cefnogaeth i bwrpas y rheoliadau sef gwireddu amcanion sylfaenol y Mesur; bod y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru ac na ddylid ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Gan gydnabod y bydd pryder ymysg y rheini a gaiff eu rheoleiddio gan Gomisiynydd y Gymraeg, pwysleisiwyd y dylid sicrhau bod pawb yn deall gofynion y Mesur; y Ddeddfwriaeth a ysgogodd ddyfodiad y safonau hyn.

Fel nodwyd mewn ymateb i ymchwiliadau blaenorol, roedd y panel o'r farn y dylid ystyried sut y bydd rhai safonau yn cael eu gweithredu mewn modd 'rhesymol a chymesur' wrth osod y gofynion mewn hysbysiadau cydymffurfio o dan adran 44 y Mesur.

Cytunodd y Panel yn gyffredinol y dylai'r gwasanaethau a enwir yn yr holiadur gael eu cynnig yn Gymraeg gan y cwmnïau. Yr oedd y Panel o'r farn y dylai pob cytundeb masnach gynnwys y gofyniad i gynnig gwasanaeth dwyieithog a dylai pob cwmni sydd yn derbyn arian cyhoeddus o ba bynnag ffynhonnell fod yn rwymedig i wneud yr un peth.

Er hyn, gwelwyd gyda rhai gwasanaethau nad oedd aelodau o'r Panel yn gytûn neu yr oeddynt yn codi cwestiynau pellach. Roedd un aelod yn cwestiynu rhesymoldeb gofyn i sefydliadau gynnal cyfarfodydd dwyieithog gydag unigolion. Roedd aelod o'r Panel yn cwestiynu a yw gwasanaeth annerch cyhoeddus dwyieithog yn realistig i'r cwmnïau dan sylw tra bod aelod arall o'r farn ei bod yn bwysig normaleiddio amlieithrwydd. Yr oedd un aelod hefyd yn pryderu am oblygiadau ariannol cynnig gwasanaeth derbyn ymwelwyr yn ddwyieithog.

Nododd un aelod o'r Panel y dylid annog cynnig cyrsiau yn Gymraeg yn hytrach na gorfodi, tra bod aelod arall o'r panel yn ei weld fel hawl sylfaenol i weithwyr.

Cafwyd sylw arall ynghylch rhoi blaenoriaeth i faterion sydd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r gwasanaeth o ddydd i ddydd i'r cyhoedd yn hytrach na gwasanaeth i unigolyn neu ddigwyddiad cyhoeddus sydd ddim yn rheolaidd. Yr oedd o'r farn y buasai gweithredu fel hyn yn annog datblygiad mewn defnydd o'r Gymraeg mewn modd cost-effeithiol.



## 7 Casgliadau'r ymchwiliad safonau

### Sylwadau cyffredinol

Daethpwyd i'r casgliadau isod ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd gan y personau perthnasol, y Panel Cyngori a'r cyhoedd i bwnc yr ymchwiliad safonau, ynghyd â thystiolaeth annibynnol a gasglwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Daw'r gweithgareddau oedd yn sail i'r ymchwiliad o'r rhestr yn Atodlen 9 Mesur y Gymraeg, yn ogystal â rhai sydd wedi eu cynnwys mewn rheoliadau blaenorol. Ers dechrau'r ymchwiliad hwn, mae rheoliadau pellach wedi eu cyhoeddi mewn perthynas â'r Gymraeg. Nid oedd y Comisiynydd yn ystyried bod rhain yn berthnasol i'w hystyried ar gyfer y sector hwn.

Nodir bod adran 42 o'r Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod rheoliadau'n darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau sy'n ymwneud â phob un o'r gweithgareddau a bennir yn Atodlen 9 yn benodol gymwys i berson os yw'r person hwnnw, ac i'r graddau y mae'r person hwnnw, yn gwneud y gweithgareddau hynny.

Er hynny, dylid nodi nad oes raid iddynt wneud hynny os yw'r Comisiynydd yn nodi mewn adroddiad safonau, neu os yw Gweinidogion Cymru o'r farn, y byddai'n afresymol neu'n anghymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i berson mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw. Dylid nodi nad yw'r adran hon o'r Mesur yn atal rheoliadau o dan adran 39 rhag darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau eraill yn benodol gymwys i berson.

Yn unol â'r uchod, os amlygwyd drwy'r ymchwiliad safonau fod person neu grŵp o bersonau yn gwneud y weithgaredd,<sup>3</sup> boed hynny i raddau mwy neu lai, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai'r holl safonau mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw gael eu gwneud yn benodol gymwys iddynt. Daethpwyd i'r casgliadau hynny gan fod y safonau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn ddibynnol ar ei gilydd o fewn cwrddas gweithgaredd.

Nodir hefyd y gall y modd y cyflenwir gwasanaeth mewn perthynas â gweithgaredd newid yn y dyfodol ac y byddai angen addasu i adlewyrchu hynny trwy amrywio'r hysbysiad cydymffurfio, yn hytrach na mynd yn ôl at reoliadau.

Er hynny, lle ceir tystiolaeth nad yw person neu grŵp o bersonau yn gwneud gweithgaredd o gwbl, boed hynny drwy dystiolaeth a geir yn rhan o'r ymchwiliad safonau neu drwy ddulliau eraill, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad na ddylai safonau o dan y gweithgaredd hwnnw fod yn benodol gymwys iddynt, oni bai fod rhesymau dilys dros wneud hynny.

Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd er mwyn dod i gasgliad ar gynnwys hysbysiadau cydymffurfio a roddir i bersonau perthnasol o dan adran 44 y Mesur.

---

<sup>3</sup> Gweithgaredd cyflenwi gwasanaethau fel y'i diffinnir yn adran 28 y Mesur

Unwaith eto, dymuna'r Comisiynydd nodi pwysigrwydd gwahaniaethu'n glir rhwng ymrwymadau person (yr hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt) a pherfformiad (i ba raddau maent yn cydymffurfio â'r disgwyliadau hynny ar hyn o bryd).

Nodir mai mater ymarferol yw perfformiad, yn ogystal ac i ba raddau y gall person gydymffurfio â safon ar amser penodol. Gall y graddau hynny wella, gwaethygu neu aros yr un fath. Mae Comisiynydd y Gymraeg o'r farn y dylai ymrwymadau ddiwallu anghenion defnyddwyr y Gymraeg y maent yn eu gwasanaethu, gydag amserlen resymol wedi ei phennu ar gyfer delio ag unrhyw rwystrau sy'n bodoli. Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried y rhwystrau hynny wrth benderfynu ar gynnwys hysbysiadau cydymffurfio a gyflwynir o dan adran 44 y Mesur yn y dyfodol.

Cydnabyddir i'r cwmnïau dan sylw adnabod heriau a rhwystrau posib i gydymffurfiaeth lawn â rhai o'r safonau cyflenwi gwasanaeth. Serch hynny, mae'r Comisiynydd o'r farn y gellid cwrdd ag ymrwymadau sy'n gymesur ag anghenion defnyddwyr y Gymraeg gydag amserlen resymol ar gyfer gweithredu ac ymdrin ag unrhyw heriau.

Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried yr anghysonderau hynny ymhellach wrth benderfynu ar gynnwys hysbysiad cydymffurfio unigol a gyflwynir o dan adran 44 y Mesur.

### Casgliad 1:

Wedi ystyried ymatebion darparwyr gwasanaethau bysiau i'r cyhoedd yn ogystal ag ymatebion y cyhoedd i'r ymchwiliad safonau daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgareddau isod fod yn benodol gymwys i bersonau neilltuedig sy'n darparu gwasanaeth bysiau i'r cyhoedd:

- gohebiaeth a anfonir gan gorff at nifer o bobl
- gohebiaeth a anfonir gan gorff at unigolyn neu gwmni
- ymateb i ohebiaeth Cymraeg mae corff wedi ei dderbyn
- galwadau ffôn i gorff ac oddi wrth gorff
- cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd
- cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff
- corff yn arddangos deunydd yn gyhoeddus
- corff yn llunio ac yn cyhoeddi dogfennau
- corff yn llunio ac yn cyhoeddi ffurflenni
- gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff
- defnydd corff o'r cyfryngau cymdeithasol
- peiriannau hunanwasanaeth
- apiau
- arwyddion a arddangosir gan gorff
- corff yn gwneud hysbysiadau
- codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff
- hunaniaeth gorfforaethol corff
- systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff
- cyrsiau hyfforddiant



- brand a hunaniaeth corfforaethol
- derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff
- corff yn dyfarnu contractau

### Casgliad 2:

Ar y sail y dystiolaeth a dderbyniwyd, nid yw'n ymddangos i'r Comisiynydd bod unrhyw ddarparwyr bysiau a holwyd yn dyfarnu grantiau. Nid yw'r Comisiynydd yn credu ei bod yn rhesymol nac yn gymesur felly i Weinidogion Cymru bennu rheoliadau ynghylch dyfarnu grantiau i bersonau sydd yn darparu gwasanaeth bysiau i'r cyhoedd.

### Cadw Cofnodion

Yn seiliedig ar y dystiolaeth, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai darparwyr gwasanaethau bysiau i'r cyhoedd gadw cofnod yn dweud sut y maen nhw'n cadw at y safonau y disgwylir iddi gydymffurfio â hwy, yn ogystal â chofnod o gwynion.

### Casgliad 3:

Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cadw cofnodion fod yn benodol gymwys i ddarparwyr gwasanaethau bysiau i'r cyhoedd.

### Safonau sy'n ymdrin â materion atodol

Mae darpariaeth yn y Mesur yn ymwneud â threfniadau monitro a gofynion adrodd ar gyfer y gyfundrefn safonau (Adran 27 – Darpariaethau Atodol). Pwrpas y safonau yw hwyluso adrodd a monitro cydymffurfedd sefydliadau a gosod camau iddynt gyhoeddi gwybodaeth ar eu perfformiad yn erbyn y gofynion statudol. Mae hyn yn gydnabyddiaeth o egwyddorion sylfaenol rheoleiddio sy'n cydnabod fod gan y sefydliad, yn ogystal a'r arolygwr neu reoleiddiwr rôl i'w chwarae mewn sicrhau ymlyniad at ofynion statudol.

### Casgliad 4:

Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i'r safonau sy'n ymdrin â materion atodol mewn perthynas â'r safonau cyflenwi gwasanaeth a chadw cofnodion fod yn benodol gymwys i ddarparwyr gwasanaethau bysiau i'r cyhoedd.

### Materion eraill – safonau gweithredu

Nid oes modd i'r Comisiynydd osod safonau gweithredu ar gyrf Atodlen 8. Er hynny, mae rhai gweithgareddau gweithredol megis hyfforddiant a recriwtio yn berthnasol i lwyddiant safonau cyflenwi gwasanaethau.

## Casgliad 5:

Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru ystyried sut i sicrhau bod modd cynnwys safonau ar hyfforddiant a recriwtio ar y sector mewn rheoliadau drafft

## Casgliadau pellach

Wrth gynnal yr ymchwiliad i'r sector hwn, daeth i'r amlwg bod nifer o ffactorau ar waith yn y maes y dylid eu hystyried ymhellach wrth ddod i gasgliadau am y camau nesaf. I'r perwyl hynny, cynhaliodd y Comisiynydd ymchwil pellach a chynnal cyfarfodydd gydag arbenigwyr yn y maes er mwyn sicrhau dealltwriaeth ehangach o'r sector. Yn yr adran hon ceir trosolwg o'r prif ffactorau perthnasol yn nhyb y Comisiynydd, wrth ystyried cyflwyno rheoliadau i bersonau neilltuedig sy'n darparu i'r cyhoedd wasanaethau bysiau.

## Cofrestru a Chynnal Gwasanaethau Bysiau Lleol

Mae nodiadau deongliadol Atodlen 8 yn cyfeirio at Ddeddf Cerbydau Cyhoeddus i Deithwyr 1981 ac yn cynnig diffiniad o'r math o ddarpariaeth sy'n agored i gydymffurfio â safonau. Ymhellach i hyn, daw'r Comisiynydd i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru ystyried gofynion Ddeddf Trafnidiaeth 1985. Mae Adran 2<sup>4</sup> y ddeddf yn diffinio'r hyn a olygir gan 'wasanaethau bysiau lleol'. Mae Adran 6 y Ddeddf hon yn manylu ar y disgwyliadau ar gwmnïau bysiau wrth gofrestru gwasanaethau bysiau lleol.<sup>5</sup>

Yn ôl y dystiolaeth a gasglwyd gan y Comisiynydd, mae Deddf 1985 yn gosod nifer o ofynion ar gwmnïau bysiau ac argymhellwn y dylai Gweinidogion Cymru ystyried y gofynion yma wrth bennu rheoliadau.

Ceir gwybodaeth cynhwysfawr mewn canllaw gan Swyddfa'r Comisiynydd Traffig sy'n nodi'r gofynion canlynol ar ddarparwyr sydd am weithredu gwasanaeth bws lleol:

"To operate a local service, operators must meet the requirements of the Transport Act 1985, Transport Act 2000 and the Public Service Vehicles (Registration of Local Services) Regulations 1986 and hold either an unconditional PSV operator's licence or a section 22 permit."<sup>6</sup>

Er mwyn derbyn y drwydded gweithredu (PSV licence) a gyfeirir ato uchod, ac a elwir yn rhif 'PG', mae'n rhaid i'r cwmni gynnig tystiolaeth o sefydlogrwydd cyllidol yn ogystal a ffactorau eraill. Caiff pob cwmni wedyn gofrestru 'disgiau' sydd yn cyfateb i gerbydau mae hawl ganddynt weithredu h.y. os oes gan gwmni 20 o ddysgiau, mae hawl ganddynt weithredu 20 cerbyd. Bydd y nifer o gerbydau a ganiateir i'r cwmni eu rhedeg yn dibynnu ar y cyfalaf sydd mewn lle gan y cwmni.

<sup>4</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1985/67/part//crossheading/meaning-of-local-service>

<sup>5</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1985/67/section/6>

<sup>6</sup> [https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/542918/local-psv-service-registration.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/542918/local-psv-service-registration.pdf)

Y Comisiynydd Traffig i'r ardal berthnasol sy'n cymeradwyo trwyddedau a disgiau i'r cwmnïau.

Ymhellach, mae'n rhaid i gwmni gofrestru'r llwybrau y dymunant eu gweithredu gyda'r Comisiynydd Traffig gan nodi amserlen, llwybr, cost tocyn ayyb.

Mae'r canllaw a ddyfynnir uchod yn nodi bod pedwar math o wasanaeth bws lleol. Cred Comisiynydd y Gymraeg bod tri o'r categorïau yn berthnasol i'r gofynion a nodir yn Y Mesur, Atodlen 7 Dehongliad 2:

- safonol (Standard)
- cyson (Frequent)
- hyblyg (Flexible)

Gall y llwybrau uchod fod yn rhai mae'r cwmnïau yn eu darparu ar eu liwt eu hunain – yn fasnachol – neu'n rhai y mae'r awdurdod lleol yn penderfynu sy'n angenrheidiol am wahanol resymau ac yn eu gosod ar dendr. Gall y gwasanaethau sydd wedi eu tendro gael eu hariannu'n rhannol yn unig, neu'n gyfan gwbl gan yr awdurdod perthnasol. Rhaid i bob math o wasanaeth, boed yn fasnachol neu wedi tendro, gael ei gofrestru gyda'r Comisiynydd Traffig.

Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad bod y criteria uchod ar gyfer cofrestru gwasanaethau bysiau yn cynnig model posib ar gyfer sicrhau bod gosod unrhyw safonau ar y sector yn rhesymol a chymesur ac y dylai Gweinidogion Cymru ystyried ymhellach y gofynion uchod ar gwmnïau wrth benderfynu ar reoliadau.

## 8 Y Camau Nesaf

Wrth ddarparu'r adroddiad safonau hwn mae Comisiynydd y Gymraeg wedi ystyried yr holl ymatebion a gyflwynwyd i'r ymchwiliad safonau. Caiff yr adroddiad hwn ei gyflwyno i'r isod yn unol ag adran 64(4) y Mesur:

- pob person perthnasol
- Panel Cyngori Comisiynydd y Gymraeg
- pob person a gymerodd ran yn ymgynghoriad y Comisiynydd yn unol ag adran 63
- Gweinidogion Cymru.

Ochr yn ochr ag ymchwiliadau safonau Comisiynydd y Gymraeg, disgwylir i Weinidogion Cymru gynnal asesiadau effaith rheoleiddiol mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth berthnasol y maent yn bwriadu ei gwneud, gan ddefnyddio eu pwerau is-ddeddfwriaethol eu hunain.

Noda Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mai asesiad effaith rheoleiddiol yw'r isod:  
A regulatory impact assessment is an assessment as to the likely costs and benefits of complying with relevant Welsh subordinate legislation.<sup>14</sup>

Yn hyn o beth, gall asesiad effaith rheoleiddiol gael ei ystyried:

- yn broses i helpu Gweinidogion Cymru ystyried effaith y rheoliad arfaethedig ar fuddiannau unigolion, grwpiau, sefydliadau ac ati
- yn gyfrwng i alluogi Gweinidogion Cymru i bwyso a mesur costau a manteision yr holl opsiynau sydd ar gael iddynt cyn gweithredu polisi; ac
- yn fodd o gyflwyno'r dystiolaeth berthnasol ar effeithiau cadarnhaol a negyddol ymyriadau o'r fath at ddibenion craffu ar y dystiolaeth honno.

Bydd disgwyl i Weinidogion Cymru ystyried y dystiolaeth a gasglwyd ganddynt at ddibenion yr asesiad effaith rheoleiddiol, ochr yn ochr â chasgliadau Comisiynydd y Gymraeg mewn adroddiad safonau wrth benderfynu a ddylent arfer y pwerau sydd wedi eu rhoi iddynt o dan Ran 4 y Mesur ai peidio.

## Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr i'r ymchwiliad safonau

Isod ceir restr o aelodau'r Panel Cyngori ynghyd ag aelodau'r cyhoedd a oedd yn fodlon inni gyhoeddi eu sylwadau.

### Aelodau'r cyhoedd

- Alaw Fôn Huws
- Ben Sulley
- Bethan Williams
- Clive Betts
- Clive James
- Curon Wyn Davies
- Cynghorydd Jeff Smith
- Dafydd Lloyd
- David Subacchi
- Elan
- Elin Walker Jones
- Elwyn Vaughan
- Fred Jeffreys
- Gareth Clubb
- Gareth Popkins
- Gethin Rhys
- Helen Greenwood
- Huw Roberts
- Ieuan Parry
- Janice Rhisiart
- Judith Humphreys
- Liam Townsend
- Lowri Cunningham
- Lowri Price
- Lyn Williams
- Marc Evans
- Marged
- Meinir James
- Morgan Owen
- Nia Llwyd
- Paul Harley
- Phil Edwards
- Sali Burns
- Siôn Jobbins
- Sioned Williams
- Steffan Bryn
- Steffan Rees
- Stephen Rule
- Wiliam Rowlands

### Sefydliadau

- Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

### Panel Cyngori Comisiynydd y Gymraeg

- Bethan Jones Parry
- Carl Cooper
- Dr Heledd Iago
- Meinir Davies
- Nick Speed